# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 2

CONTRACTAU MEDDIANNAETH A LANDLORDIAID

## PENNOD 5

MATERION ALLWEDDOL A THELERAU YCHWANEGOL CONTRACTAU MEDDIANNAETH

### 26 Materion allweddol mewn perthynas â phob contract meddiannaeth

Mae'r canlynol yn faterion allweddol mewn perthynas â phob contract meddiannaeth—

(a) yr annedd,

(b) y dyddiad meddiannu,

(c) swm y rhent neu gydnabyddiaeth arall, a

(d) y cyfnodau rhentu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 26 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

### 27 Materion allweddol pellach mewn perthynas â chontractau safonol

Mae'r canlynol yn faterion allweddol mewn perthynas â chontractau safonol (yn ychwanegol at y rheini a nodir yn adran 26)—

(a) pa un a yw'r contract yn un cyfnodol neu wedi ei wneud am gyfnod penodol,

(b) y cyfnod dan sylw, os yw wedi ei wneud am gyfnod penodol, ac

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 5 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) os oes cyfnodau pan nad oes gan ddeiliad y contract hawl i feddiannu'r annedd fel cartref, y cyfnodau dan sylw (gweler adrannau 121 a 133).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 27 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 28 Telerau ychwanegol

(1) Telerau ychwanegol contract meddiannaeth yw unrhyw un neu ragor o delerau datganedig y contract ac eithrio—

(a) telerau sy'n ymdrin â'r materion allweddol mewn perthynas â'r contract,

(b) telerau sylfaenol y contract, ac

(c) telerau atodol y contract.

(2) Nid oes unrhyw effaith i un o delerau ychwanegol contract meddiannaeth sy'n anghydnaws ag unrhyw un neu ragor o'r telerau a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (1).

(3) Yn y Ddeddf hon mae i "telerau ychwanegol" yr ystyr a roddir gan is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I6** A. 28 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 5 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
- s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
- s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
- s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5